**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

**Adroddiad: CA(3)-27-10 : 17 Tachwedd 2010**

Gellir gwylio'r cyfarfod hwn ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_400004_27_05_2010&t=0

**Amser: 09.30 am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**
Janet Ryder, Gogledd Cymru (Cadeirydd)
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
William Graham, Dwyrain De Cymru
Rhodri Morgan, Gorllewin Caerdydd
Kirsty Williams, Brycheiniog a Sir Faesyfed

**Ymddiheuriadau.**

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno'r adroddiadau a ganlyn i'r Cynulliad:

**Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reolau Sefydlog 15.2 na 15.3.**

**Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

**CA498 - Rheoliadau Traffordd yr M4 (Cyffordd 41, Slipffordd Ymadael tua'r Gorllewin, Cylchfan Sunnycroft, Baglan, Castell-nedd Port Talbot) (Terfyn Cyflymder 50 MYA) 2010**
**Gweithdrefn:** Negyddol
**Fe'u gwnaed ar:** 25 Hydref 2010
**Fe'u gosodwyd ar:** 28 Hydref 2010
**Yn dod i rym ar:** 18 Tachwedd 2010

**CA500 – Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sy'n addas i Bobl ag Anoddefiad tuag at Glwten (Cymru) 2010**
**Gweithdrefn:** Negyddol
**Fe'u gwnaed ar:** 23 Hydref 2010
**Fe'u gosodwyd ar:** 2 Tachwedd 2010
**Yn dod i rym ar:** 1 Ionawr 2010

**CA502 – Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Cymru) 2010**
**Gweithdrefn**: Negyddol

**Fe'u gwnaed ar:** 25 Hydref 2010
**Fe'u gosodwyd ar:** 3 Tachwedd 2010
**Yn dod i rym ar:** 1 Rhagfyr 2010

**Offerynnau ac Offerynnau Drafft y caiff y Cynulliad ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reolau Sefydlog 15.2 a/neu 15.3**

**Offerynnau sy'n agored i gael eu cymeradwyo yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn gadarnhaol)**

**CA501 – Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2010**
**Gweithdrefn:** Negyddol
**Fe'u gwnaed ar:** 25 Hydref 2010
**Fe'u gosodwyd ar:** 2 Tachwedd 2010
**Yn dod i rym ar:** 23 Tachwedd 2010

**Offerynnau drafft sy'n agored i gael eu cymeradwyo yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn gadarnhaol)**

**CA499 – Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010**
**Gweithdrefn:** Cadarnhaol
**Fe'u gwnaed:** Heb nodi'r dyddiad
**Fe'u gosodwyd ar:** 1 Tachwedd 2010
**Yn dod i rym ar:** 1 Hydref 2011

Cytunodd y Pwyllgor i dynnu sylw'r Cynulliad at y Rheoliadau hyn o dan Reol Sefydlog 15.3(ii) sef eu bod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i dynnu sylw'r Pwyllgor Cynaliadwyedd at yr adroddiad.

Cytunodd y Pwyllgor ar yr Adroddiadau o dan Reolau Sefydlog 15.2 a 15.3 mewn perthynas â'r offerynnau hyn ac offerynnau drafft. Ceir copi ohonynt yn Atodiadau 1-2.

**Busnes arall**

**Ymchwiliadau'r Pwyllgor: Drafftio Mesurau Llywodraeth Cymru: Gwersi a ddysgwyd o'r tair blynedd gyntaf**
Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Andrew White, Cyfarwyddwr Stonewall Cymru ac Ele Hicks, Swyddog Prosiectau a Pholisi, Stonewall Cymru.

**Ymateb gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig i lythyr y Cadeirydd ynghylch Adroddiad Technegol ac Adroddiad ar Ragoriaethau'r Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010 (CA459) a'r Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) 2010 (CA469)**
Roedd y Pwyllgor wedi cyhoeddi adroddiadau Rhagoriaethau ar y Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010 a'r Gorchymyn Iechyd

Planhigion (Cymru) 2010 ar ddechrau tymor yr hydref ac wedi trafod ymatebion y Gweinidog ar ôl hynny.

Nid oedd llythyr diweddaraf y Gweinidog, dyddiedig 4 Tachwedd 2010, yn cynnig esboniad clir o hyd o ran pam roedd amodau blaenorol ar gyfer cael mynediad wedi cael eu newid. Gan nad oedd y Pwyllgor yn fodlon â'r ymateb hwn, cytunwyd i wahodd y Gweinidog i roi ei hesboniad i'r Pwyllgor yn bersonol (oni bai y rhoddir esboniad ysgrifenedig clir cyn gynted â phosibl).

**Penderfyniad i gwrdd yn breifat**

Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi) penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod er mwyn trafod y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd yn hyn am yr ymchwiliad i Ddrafftio Mesurau Llywodraeth Cymru: Gwersi a ddysgwyd o'r tair blynedd gyntaf.

**Janet Ryder AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**17 Tachwedd 2010**

**Atodiad 1**

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

## (CA(3)-27-10)

**CA499**

**Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

**Teitl: Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010**

**Gweithdrefn: Cadarnhaol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch yr isafswm tâl (5c) mae'n rhaid i werthwyr nwyddau ei godi am fagiau siopa untro. Caiff y Rheoliadau eu gwneud o dan adrannau 77 a 90 o Ddeddf Newid Hinsawdd 2008 ac Atodlen 6 iddi.

**Materion technegol: Craffu**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Rhagoriaethau: Craffu**

Cefndir

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i werthwyr nwyddau godi tâl am fagiau siopa untro plastig a phapur a ddarperir ar gyfer cwsmeriaid. Mae'r Rheoliadau'n pennu isafswm tâl o 5c ac yn ei gwneud yn ofynnol i werthwyr nwyddau gadw a chyhoeddi cofnodion mewn cysylltiad â nifer y bagiau a gaiff eu gwerthu ganddynt yng Nghymru a sut y defnyddiwyd yr elw.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn penodi awdurdodau lleol yng Nghymru yn weinyddwyr ac yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol ddefnyddio sancsiynau sifil i ymdrin ag achosion o dorri'r Rheoliadau.

Materion a nodwyd gan y Llywodraeth sydd o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Y Rheoliadau drafft hyn yw'r rhai cyntaf yn y DU i ddefnyddio'r pŵer i'w gwneud yn ofynnol i werthwyr godi tâl am fagiau siopa untro o dan Ddeddf Newid Hinsawdd 2008.

Y Rheoliadau drafft hyn hefyd yw'r rhai cyntaf i roi pwerau i awdurdodau lleol yng Nghymru mewn perthynas â sancsiynau sifil.

Caiff y pwerau sancsiynau sifil eu hategu gan ddyletswyddau i gyhoeddi canllawiau ar sut y defnyddir y pwerau.

Materion eraill

*Gostyngiad yn y tâl arfaethedig*

Roedd tystiolaeth gan fanwerthwyr yn ystod y broses ymgynghori yn dangos y byddai tâl o 5c yn ddigon i rwystro pobl rhag prynu bagiau siopa. Cyn hyn, roedd Llywodraeth Cymru wedi cyfrif hyn i fod yn 7g.

Bellach, mae'r Llywodraeth yn credu y byddai 5c yn decach i grwpiau incwm isel ac yn atal pobl rhag gorfod talu mwy am fag siopa untro nag am 'fag am oes', a fydd wedi'i eithrio o'r tâl.

Yng ngoleuni'r sylwadau a gafwyd, penderfynwyd gostwng y tâl o 7g i 5c, er gwaethaf cydnabod na fydd y tâl is yn 'mewnoli' costau cymdeithasol ac amgylcheddol cynhyrchu a gwerthu bagiau siopa, er y byddai hyn wedi digwydd gyda'r tâl o 7g.

*Materion yn ymwneud â diffiniad*

Roedd yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad yn cyfeirio at ddryswch parhaus am nifer o faterion nad ydynt yn ymddangos fel pe baent wedi cael eu hystyried yn llawn yn y Rheoliadau na'r Memorandwm Esboniadol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- a fydd bagiau plastig a ddefnyddir ar gyfer nwyddau hyrwyddo, e.e. bagiau a gaiff eu dosbarthu mewn cynadleddau, yn rhan o'r amodau tâl;
- pam y bydd bagiau ar gychod, trenau a llongau wedi'u heithrio;
- pan fydd nwyddau'n cael eu dychwelyd gan y prynwr, a fydd yn ofynnol i'r gwerthwr ad-dalu tâl y bag siopa ac a allai'r gwerthwr dynnu hyn o'r enillion gros fel costau rhesymol o dan y rheoliadau;
- a yw'n bosibl cael bag newydd am ddim yn lle un sydd wedi torri;
- dehongliad o'r darpariaethau sy'n eithrio rhai bagiau (er enghraifft am resymau iechyd neu hylendid) ond na fyddent, wedyn, yn cael eu heithrio os caiff eitemau eraill eu rhoi yn y bag.

*Costau a chadw cofnodion*

Gall manwerthwyr dynnu 'costau rhesymol' o'r enillion gros o'r tâl am fagiau siopa, gan gynnwys costau cydymffurfio a chostau sy'n gysylltiedig a chyfleu'r tâl i staff a chwsmeriaid.

Bydd yn ofynnol i fanwerthwyr mwy gadw cofnodion a chyhoeddi'r cofnodion hyn yn flynyddol, a bydd yn ofynnol i fanwerthwyr llai gadw cofnodion, ond ni fydd angen eu cyhoeddi.

Mynegwyd ychydig o bryderon gan rai o'r bobl yr ymgynghorwyd â hwy. Mae'r rhain yn cynnwys:

- nid yw'n glir a ellir tynnu'r costau a dalwyd cyn i'r rheoliadau ddod i rym (ym mis Hydref 2011);

- gweithredu'r rheoliadau mewn gwahanol ffyrdd ym mhob rhan o Gymru, gan ei bod yn bosibl na fydd awdurdodau lleol, a fydd yn gyfrifol am weinyddu a gorfodi'r tâl hwn, yn cysoni'r diffiniad o 'gostau rhesymol';

- pryder gan fusnesau bach a chanolig eu maint am effaith y gofyniad i gynnal cofnodion a'u cyflwyno ar gais i unrhyw aelod o'r cyhoedd.

*Cosbau*

Mae'r rheoliadau yn darparu ar gyfer amrywiaeth o gosbau ariannol penodol, ac nid oes yr un ohonynt yn uwch na £200.

Fodd bynnag, mae darpariaeth hefyd ar gyfer gosod cosbau ariannol amrywiol gan awdurdodau lleol unigol. Uchafswm gwerthoedd y cosbau hyn yw £5,000 ac £20,000, yn dibynnu pa reoliad sydd wedi'i dorri.

Nid yw'n glir, eto, i ba raddau y bydd awdurdodau lleol yn gosod cosbau yn ôl gwahanol feini prawf mewn gwahanol rannau o Gymru.

*Bagiau siopa papur*

Nod y rheoliadau yw lleihau nifer y bagiau siopa untro a gaiff eu defnyddio bob blwyddyn yng Nghymru. Mae 350 miliwn o'r 445 miliwn o fagiau a ddefnyddir yn rhai plastig ac mae 95 miliwn ohonynt yn rhai papur. Bydd yn tâl yn cael ei bennu yn ôl lefel sy'n 'mewnoli' costau cymdeithasol defnyddio bag, ac felly'n arwain at lai o ddefnydd.

Bydd y tâl yn berthnasol i fagiau siopa plastig a bagiau siopa papur. Fodd bynnag, nid yw'r Llywodraeth wedi gallu cyfrifo costau cymdeithasol bag papur ar hyn o bryd (fel y llwyddodd ar gyfer bagiau plastig). At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, barnwyd bod y

pris yr un fath ag ar gyfer bag plastig. Efallai nad yw'r farn hon yn gywir.

<u>Ystyriaeth y Pwyllgor</u>

Nododd y Pwyllgor y materion uchod ac yn benodol:

- mai'r rheoliadau yw'r defnydd cyntaf yn y DU o bwerau o dan Ddeddf Newid Hinsawdd 2008 i'w gwneud yn ofynnol i dalu am fagiau siopa a'r cyntaf i roi Pwerau Sancsiynau Sifil i awdurdodau lleol yng Nghymru;
- bod y pwerau a ddefnyddiwyd i wneud y rheoliadau wedi cael eu rhoi yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru ac nad yw'r Cynulliad wedi craffu arnynt cyn hyn;
- bod amrywiaeth o bryderon manwl am y ffordd y bydd y rheoliadau'n gweithio'n ymarferol a sut y byddant yn effeithio, yn benodol, ar fanwerthwyr bach;
- bod y rheoliadau'n berthnasol i fagiau siopa papur a bagiau siopa plastig. Er y gallai'r costau sylfaenol ar gyfer y ddau fath o fag fod yn wahanol, maent wedi cael eu barnu i fod yr un fath ac mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi cael ei gyfrifo ar y sail honno.

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol i'r Gweinidog fynd i'r afael â'r holl bwyntiau hyn yn uniongyrchol yn ystod trafodaeth yn y Cyfarfod Llawn ar y Gorchymyn drafft.

Yng ngoleuni'r ffactorau hyn, cytunodd y Pwyllgor bod y Gorchymyn drafft a'r Rheoliadau yn codi materion o bolisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad. Cytunodd y Pwyllgor i dynnu sylw'r Cynulliad at y Gorchymyn drafft a'r Rheoliadau drwy adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.3(ii).

**Janet Ryder AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**17 Tachwedd 2010**

**Atodiad 2**

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

**(CA(3)-27-10)**

**CA501**

**Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

**Teitl: Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2010**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer rhoi ar waith a gorfodi Rheoliad (EC) Rhif 767/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar osod ar y farchnad a defnyddio bwyd anifeiliaid.

**Materion Technegol: Craffu**

O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn:-

1. Mae Atodlen 2 (Dirymiadau) o'r testun Cymraeg ym mharagraff 2 yn cyfeirio at "Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid a Phorthiant (Samplu a Dadansoddi) (Cymru) 2006" ("Rheoliadau 2006") pan mai'r teitl cywir yw "Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid a Phorthiant (Samplu a Dadansoddi) (Diwygio) (Cymru) 2006". Mae'r gair "diwygio" wedi'i hepgor. Mae fersiwn Saesneg y testun yn cyfeirio at destun y Rheoliadau 2006 cywir.

Rheol Sefydlog 15.2 (vii), sef ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg, a Rheol Sefydlog (vi), sef ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio'n ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

2. Mae rheoliad 7(2)(b) yn cyfeirio at deitl Erthygl 12 o Reoliad 1831/2003 fel "monitro ar ôl awdurdodi", pan mai'r teitl cywir ar gyfer Erthygl 12 yw "Goruchwylio". Rheol Sefydlog 15.2 (vi), sef ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio'n ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

<u>Ymateb y Llywodraeth</u>

1. Mae'r gair "Diwygio" wedi ei adael allan o destun Cymraeg paragraff 2 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau. Manteisir ar y cyfle cyntaf i wneud diwygiad priodol i'r Rheoliadau, a fydd yn mewnosod y gair yn y testun Cymraeg.

2. Pan gyfeirir mewn is-ddeddfwriaeth at ddarpariaeth ddeddfwriaethol, fel y gwneir yn yr achos hwn at Erthygl 12 o Reoliad (EC) Rhif 1831/2003, yr arweiniad a roddir yn "Statutory Instrument Practice" (Pedwerydd Argraffiad, Tachwedd 2006), paragraff 2.7.4, yw ei bod yn aml yn fuddiol ychwanegu disgrifiad byr o berwyl y ddarpariaeth honno, mewn cromfachau. Mae'r geiriau a ddefnyddiwyd yn rheoliad 7(2)(b) yn dilyn yr arweiniad hwnnw. Nid yw'r gofynion drafftio yn mynnu bod rhaid dyfynnu "teitl" y ddarpariaeth. O ganlyniad, nid ystyrir bod angen gweithredu ymhellach.

Ystyriaeth y Pwyllgor

Nododd a derbyniodd y Pwyllgor ymateb y Llywodraeth. Fodd bynnag, mewn cysylltiad â phwynt 2, er nad yw'n ofyniad cyfreithiol, roedd y Pwyllgor yn parhau o'r farn y byddai wedi bod yn fwy buddiol ac wedi cyfleu mwy o wybodaeth pe bai teitl cywir Erthygl 12 wedi cael ei ddefnyddio.

**Rhagoriaethau: Craffu**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau ar gyfer cyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 15.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**Janet Ryder AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**17 Tachwedd 2010**